

Ydych chi'n Barod am y Tywydd?

Gall meddwl ymlaen a pharatoi ar gyfer yr hyn a ddaw yn sgil y tywydd wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Dyma ychydig o gamau syml y gallwch eu cymryd i baratoi eich hun, eich cerbyd a'ch cartref neu fusnes, fel y gallwch fwynhau misoedd yr haf.

Byddwch yn Barod i fod yn egnïol

Bwriadu mynd allan i fod yn egnïol yr haf hwn? Sicrhewch fod gennych yr holl offer angenrheidiol gan gynnwys potel ddŵr, eli haul, het haul neu offer tywydd gwlyb.



Gwiriwch eich tŷ a'ch gardd

Gyda'r haf ar ddod, meddyliwch am unrhyw waith cynnal a chadw y gallai fod angen ei wneud o amgylch y cartref, er enghraifft, os gallwch chi wneud hynny'n ddiogel, gwiriwch eich to a chlirio'r cwteri.



Tynnwch y pryder allan o stormydd yr haf

Gyda mwy o eitemau yn yr ardd yn ystod yr haf, ystyriwch symud neu storio pethau pan ragwelir gwyntoedd cryfion. Meddyliwch am wirio draenau i osgoi rhwystrau yn ystod glaw trwm.



Byddwch yn barod am dywydd poeth

Os ydych chi'n hoffi treulio amser yn eich gardd, cynlluniwch i osgoi'r rhan boethaf o'r dydd a gwnewch yn siŵr bod gennych chi ddŵr a gwisgwch eli haul a het lydan â chantel.



Cadwch lygad ar lefelau UV a phail

Edrychwch ar ein gwefan neu lawrlwythwch ein ap i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y tywydd, UV a rhagolygon y pail cyn mynd allan. Stociwch ar eli haul, ymlidydd pryfed ac unrhyw feddyginiaeth clefyd y gwair sydd ei angen arnoch.



Gwiriwch fod eich cerbyd yn barod ar gyfer yr haf

Os ydych chi'n cynllunio triapiau haf yn eich car, ychwanegwch at olchydd sgrin a gwiriwch lefelau'ch teiars, oerydd ac olew.



Edrychwch allan dros y rhai o'ch cwmpas

Edrychwch allan dros eraill yn eich cymuned, yn arbennig pobl hŷn, plant ifanc, babanod a'r rhai sydd â risgiau iechyd. Gwiriwch a oes unrhyw beth y gallwch ei wneud i helpu.



Paratowch 'fag cydio' gyda chyflenwadau sylfaenol

Sicrhewch fod gennych rai cyflenwadau sylfaenol fel dŵr potel, moddion, tortsh, radio a batris mewn bag. Bydd hyn yn helpu os bydd rhaid i chi adael cartref yn gyflym mewn argyfwng, neu os amherir ar eich pŵer neu ddŵr.

